

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe ar nos Fercher, Ionawr 26^{ain}, 2022 am 6.30 yh.

Presennol

Cynghorwyr	I. Rh. Llewelyn	Mrs S. E. Thomas	P. H. Roberts
	R. A Davies	D Hopkins	Mrs Ll. Hindley
	Mrs K. D. L. Davies	B. Rees	Mrs A. Evans
	Mrs C. Thomas	A. J. Evans	C. J Harris

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	Mrs J. E Collins	Mrs Ll. Latham	E.W. Nicholas
	D. Nicholas	A.W. Jones	

1023.

DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant

1024.

GILFACH IAGO

Mynychwyd y cyfarfod gan Caroline Ferguson a Hugh Towns o Gyngor Sir Caerfyrddin, a hysbysodd yr Aelodau o'r manylion ynghylch yr ail-osod arfaethedig yn Ngilfach Iago, a gymeradwy-wyd gan Gyngor Llawn Cyngor Sir Caerfyrddin ar Ragfyr 8^{fed}, 2021. Roedd yr Aelodau eisoes wedi derbyn manylion cryno am y cynllun ac mae'r rhain wedi'u cofnodi o dan Cofnod rhif 1011.

Hysbyswyd yr Aelodau bod anfoneb am gyfanswm o £320,000 wedi'i anfon at Celtic Energy, ond ni fyddai unrhyw brosesau cyfreithiol yn cychwyn tan fod yr arian wedi'i dderbyn. Roedd adran gyfreithiol y Cyngor Sir wedi cadarnhau bod y gwaith arfaethedig yn gyfreithlon. Hysbysodd y Clerc yr Aelodau ei fod wedi derbyn ebost oddiwrth Mr Phil Snaith, aelod o rwydwaith Eirioli Beicio Cycle UK, ac roedd hefyd wedi cysylltu â'r Cyngor Sir. Roedd Mr Snaith am hysbysu'r Cyngor bod lled arfaethedig y llwybrau ceffyl / llwybrau beicio sy'n cael eu rhannu yn llai na'r lled sydd ei angen. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydymdeimlo â'r pryderon ond mae cyfyngiadau ariannol yn cyfyngu ar yr opsiynau. Mae'n bosibl y bydd arian ychwanegol yn dod o'r gronfa Teithio Llesol, a bydd hyn efallai'n caniatau lledaenu'r llwybr.

Gofynnodd y Cynghorydd P. H Roberts paham y mae'n rhaid i dalwyr treth y cyngor y sir ariannu'r prosiect yn rhannol, pan fod Celtic Energy wedi torri eu haddewidion droeon dros y blynyddoedd, ac yn awr yn gorfod cyfrannu ond rhan fechan o enillion y safle, a ddim yn darparu unrhyw fuddion cymunedol ariannol fel yr addawyd yn ystod y trafodaethau cynt. Roedd Hugh Towns o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi hysbysu'r Aelodau gan nad oedd bond yn ei le a bod Celtic Energy wedi gwerthu'r tir i amrywiol dirfeddianwyr, nid oedd y Cyngor Sir mewn sefyllfa gref i ddadlau, ac roedd hi wedi bod yn anodd negodi'r setliad.

Roedd y Cynghorwyr wedi trafod rhinweddau'r cynnig, a'r teimlad cyffredinol oedd y byddai'r prosiect yn dod â chyfleustaerau hamdden, sydd mawr eu hangen, i'r ardal a dylai'r prosiect mynd yn ei flaen. Pan fydd yr arian a anfonebwyd wedi'i dderbyn oddiwrth Celtic Energy, maen'n bosibl y bydd cais i Lys yr Ynadon yn cael ei glywed o fewn tri mis, ac felly mae'n bosibl y bydd y prosiect yn cychwyn yn ystod misoedd yr haf. Mynegwyd consyrn y byddai methu gweithredu'r prosiect newydd hwn yn arwain

at fethiant unwaith yn rhagor, a ni fyddai'r gwaith i ddarparu'r cyfleusterau newydd hyn yn cychwyn.

Roedd Cyngor Cymuned Llandybïe wedi rhoi ei ganiatâd i'r prosiect cyn hyn ond, erbyn hyn, roedd angen cynnal ymgynghoriad newydd i ofyn barn o'r newydd, gan nad oedd y prosiect arfaethedig blaenorol wedi gweld golau ddydd. Bydd hyn yn cael ei ystyried pan fyddwn yn derbyn y ddogfen ymgynghori oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin.

Diolchodd y Cadeirydd i Caroline Ferguson a Hugh Towns am fynychu, ac yna gadawodd y ddau y cyfarfod.

Ar yr adeg hon ymunodd y Cynghorydd Mrs S. E Thomas a'r Cynghorydd Sir D. Thomas â'r cyfarfod.

1025.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Ragfyr 1^{af}, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ragfyr 1^{af}, 2021.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r mynychwyr os oedd unrhyw fater i'w godi, a **phenderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir. **Penderfynwyd** hefyd gadarnhau argymhellion y Pwyllgor.

1026.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Ragfyr 1^{af}, 2021

i) Cofnod rhif 1009 – Polisi mynediad i'r parciau

Roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, a oedd wedi hysbysu'r Cyngor bod gofynion mynediad at barciau yn dod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac y dylid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau mynediad ar gyfer nwyddau, gwasanaethau ac adnoddau. Fe allai hyn gynnwys trefniadau rheoli priodol megis datgloi gatiâu neu hyd yn oed newid y mannau mynediad yn gorfforol er mwyn hwyluso mynediad i'r anabl. Nid oes unrhyw bolisïau penodol mynediad i barciau yn bodoli.

Mae'n arfer da bod Cyngor yn cadw cofnod i ddangos ei fod wedi ystyried angen a nodwyd. Bydd cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn adnabod problemau ac yn caniatáu i'r Cyngor ystyried unrhyw weithrediadau rhesymol a fydd yn lliniaru'r effaith.

Mae'r penderfyniad a gymerwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn i aros tan fod y pafiliwn ym Mharc Penygroes yn ail-agor yn ddigonol am y tro. Wrth wneud y penderfyniad terfynol bydd rhaid ystyried pob opsiwn o ran ymarferoldeb, cost ac effaith y bobl sy'n defnyddio sgwteri anabledd.

ii) Cofnod rhif 1010 – Adolygu darpariaeth Addysg Gynradd yn ardal y Blaenau a Llandybïe

Roedd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno i roi'r gorau i'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt yn ddiweddar, ac i ymgynghori o'r newydd o ran buddsoddi yn Addysg Gynradd yn ardal Llandybïe yn unig. Bydd y cynigion hyn yn cychwyn cyn gynted ag y bo ffordd ymarferol o wneud hyn. Bydd dyfodol Ysgol Blaeanau yn cael ei ystyried mewn manylder - fel y bydd dyfodol pob ysgol arall - fel rhan o'r adolygiad llawn o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.

iii) Cofnod rhif 1013 – Prydles y Swyddfa a'r Siambr – mae'r gwaith ynghylch y costu yn mynd yn ei flaen.

GOHEBIAETH

1027.

Adroddiadau'r heddlu

Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiad trosedd ar gyfer Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022.

1028.

Derbyniwyd yr eitemau canlynol o ohebiaeth, ac fe'u dosbarthwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod:

a) Ymgynghoriad Asesu Llesiant Sir Gaerfyrddin

b) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

Roedd y Ddeddf wedi'i nodi yn flaenorol yng Nghofnod 863 yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ym Mawrth 2021. **Penderfynwyd** hefyd nodi'r canllawiau drafft a ddarparwyd.

Roedd y Cynghorydd Mrs S. E Thomas am nodi'r ffaith y byddai'n annheg cosbi Cynghorwyr am ddiffyg hyfforddiant pan nad oedd yr holl gyrsiau ar gael yn yr iaith Gymraeg. Yn ddiweddar, roedd Un Llais Cymru wedi sicrhau bod llawer o gyrsiau ar gael yn Gymraeg ac, wrth gwrs, ar gais, byddai modd cyflwyno nodiadau cwrs iaith Gymraeg ar gyfer pob cwrs.

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth.

1029.

Cynnig i greu coetir Glastir

Derbyniwyd llythyr oddiwrth H W Forestry Ltd yn gweithredu ar ran tîrfeddianwr sy'n berchen ar dir yn ffinio ar Heol Saron. Mae'r ymgeisydd yn bwriadu plannu 5 hectar o goetir llydanddail brodorol o dan y cynllun creu coetir Glastir. Dosbarthwyd yr wybodaeth i'r Cynghorwyr yn ystod egwyl mis Rhagfyr ac, yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Clerc, roedd yr ymateb i'r prosiect wedi bod yn

gefnogol, ar yr amod bod y coridorau mynediad yn dal ar agor i'r cyhoedd, a bod strategaeth goetir bositif yn cael ei gweithredu er mwyn sicrhau bod y coed a blannir yn cael cefnogaeth deg i dyfu.

1030.

Parti y Jiwbilî

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mrs Marion Jones o Benygroes yn gofyn caniatâd i ddefnyddio'r ardal o flaen y pafiliwn ym Mharc Penygroes i gynnal parti jiwbilî ar Fehefin 5^{ed}, 2022.

Penderfynwyd caniatáu'r cais.

1031.

Gŵyl y Banc ar Ddydd Gŵyl Dewi

Roedd y Cynghorydd Mrs C Thomas wedi ysgrifennu at y Clerc yn gofyn bod y Cyngor yn cefnogi, yn ffurfiol, cais at Gyngor Sir Caerfyrddin yn datgan bod Dydd Gŵyl Dewi Sant yn ŵyl gyhoeddus.

Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn argymhell y dylai, fel Awdurdod Lleol, ganiatáu ŵyl gyhoeddus ar Fawrth 1^{af} i'w holl staff, a chefnogi'r cysyniad bod gŵyl y banc cenedlaethol yn cael ei chyflwyno. Yn ychwanegol, dylid anfon llythyr at y Senedd yng Nghaerdydd ac at Lywodraeth y DU yn San Steffan, yn gofyn bod Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl cenedlaethol.

Yn ychwanegol, **penderfynwyd** bod Cyngor Cymuned Llandybïe yn datgan bod Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod gŵyl i'w staff.

1031.

ADRODDIAD Y CLERC

a) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

i) Llwybr Troed 51/O/52 yng Nghwmfferws

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi arolygu'r llwybr troed hwn yn ddiweddar ac wedi darganfod bod y bontbren sy'n cario'r llwybr troed mewn cyflwr peryglus. Er mwyn diogelu'r cyhoedd maen nhw wedi cau'r bont dros-dro. Mae'r trafodaethau ynghylch cytundeb cyllido ar y cyd gyda'r preswylwyr preifat, sy'n defnyddio'r bont er mwyn cael mynediad at eu heiddo, yn mynd yn eu blaen.

ii) Llwybr Troed 51/120 yn Llandybïe

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin am gau'r llwybr troed hwn am 6 mis arall o Ionawr 22^{ain}, 2022 ymlaen gan nad ydynt wedi llwyddo i atgyweirio'r bont/ gwneud trefniadau amgen.

b) Mynychu cyfarfodydd y Cyngor a Chyfethol Aelodau

Yn unol ag Adran 85(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae Aelod o awdurdod lleol sy'n methu mynychu cyfarfod am gyfnod o chwe mis, onibai bod yr absenoldeb oherwydd rheswm a gymeradwywyd gan y Cyngor cyn terfyn y cyfnod hwnnw, yn peidio â bod yn Aelod o'r Cyngor.

Hysbyswyd y Cynghorwyr N. Evans a S. J Roberts, oherwydd eu bod wedi bod yn absennol am chwe mis, nid yw'r ddau bellach yn Aelodau o Gyngor Cymuned Llandybïe. Nid y Cyngor sy'n gwneud y penderfyniad hwn ond, yn hytrach, mae wedi'i osod yn y ddeddfwriaeth.

Mae'r Ddeddf Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Lloegr a Chymru) 2006, yn datgan os bydd lle gwag achlysurol yn codi o fewn 6 mis cyn cyfnod ymddeol arferol y Cynghorydd, gall y Cyngor Cymuned, ar ôl bod 14 diwrnod wedi mynd heibio, gyhoeddi hysbyseb cyfethol, a chyfethol aelodau newydd os taw dyna yw'r dewis.

Ar Ionawr 10^{fed}, 2022, cyhoeddwyd ar wefan y Cyngor ac ar hysbysfwrdd ward Saron, hysbyseb yn datgan bod llefydd gwag ar gael am 2 Gynghorydd. Wedi gwneud hynny, roedd modd cyhoeddi hysbyseb cyfethol ar ôl 14 diwrnod, ac roedd gan y Cyngor yr hawl i gyfethol unigolion i lenwi'r llefydd gwag. Nid oedd unrhywun wedi dangos diddordeb.

Oherwydd bod etholiadau cyffredinol i'w cynnal ym Mai 2022, **penderfynwyd** nad yw'r Cyngor am gyhoeddi hysbyseb i gyfethol cynghorwyr newydd am y cyfnod byr hwn. Bydd dal gan y Cyngor gworwm yn ystod y cyfnod hwn.

Penderfynwyd y dylid anfon, ar ran y Cyngor, llythyr o ddiolch at Nigel Evans a Steven Roberts i ddiolch am eu gwaith fel cynghorwyr lleol yn ward Saron.

Roedd y Cynghorydd Ll. Hindley wedi cwestiynu'r rheol 6 mis yn ystod y cyfnod digynsail Covid hwn. Roedd hi ond yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn oherwydd ei fod wedi'i gynnal, unwaith yn rhagor, trwy gyfrwng Microsoft Teams; fel arall, byddai hi hefyd wedi tramgwyddo'r rheol 6 mis. Eglurodd y Clerc y sefyllfa gyfreithiol gyfredol, sef bod rhaid i gyfarfod y Cyngor Llawn gymeradwyo absenoldeb sy'n hwy na chwech mis cyn bod y cyfnod o chwe mis wedi dod i ben.

Er mwyn helpu lliniaru'r sefyllfa, **penderfynwyd** cynnal cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn trwy gyfrwng Microsoft Teams, fel bod gan y Clerc amser i archwilio a phrofi system newydd a fydd yn hyrwyddo cyfarfodydd hybrid, ac a fydd yn caniatáu mynychu arlein neu wyneb-yn-wyneb.

c) Parciau

i) Parc Saron

Derbyniwyd anfoneb am £8090 oddiwrth MBP Fencing am amnewid y ffens ar hyd rhan o'r ardal chwarae i blant a'r tir sy'n ffinio ar y maes parcio; roedd hwn wedi'i osod yn foddhaol yn unol â dyfynbrisiau diweddar a gytunwyd arnynt gan y Cyngor Llawn. Gyda chydysniad y Cadeirydd, roedd yr anfoneb wedi'i thalu.

ii) Parc Gorsddu

Derbyniwyd cyfanswm o £13,724 o arian Adran 106 oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin yn gyfnewid am y taliad a wnaethpwyd yn ddiweddar am yr eitem o offer chwarae.

iii) Amnewid meinciau parc

Derbyniwyd anfoneb am £1050, heb godi TAW, oddiwrth I L Merrills am amnewid tair mainc barc. Roedd y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol.

iv) Arolygu'r Parciau

Derbyniwyd anfoneb am £2340 a TAW oddiwrth Sunshine Playgrounds Ltd am adolygu'r parciau rhwng Chwefror 2021 ac Ionawr 2022.

ch) Dyfynbrisiau am adolygu'r parciau

Derbyniwyd dau ddyfynbris am dendr dwy-flynedd o hyd am y gwaith o arolygu, yn weithredol, yr unarddeg parc. Roedd un contractwr arall wedi penderfynu peidio cyflwyno dyfynbris. Roedd y Clerc a'r Cadeirydd wedi adolygu'r cyflwyniadau ac roedd y contract wedi'i ddyfarnu i gwmni Sunshine Playgrounds Ltd am bris blyneddol o £2430.

Penderfynwyd cymeradwyo'r penderfyniad i ddyfarnu'r contract.

d) Eglwys y Plwyf Llandybïe

Derbyniwyd anfoneb am £380.40 oddiwrth Eglwys y Plwyf Llandybïe am y gwaith o wasanaethu'r cloc yn flynyddol. Cytunwyd yn flaenorol y byddai hyn yn cael ei dalu pan y cyflwynwyd yr anfoneb.

dd) Gwefan

Derbyniwyd anfoneb gwerth £300 oddiwrth Vision ICT Ltd am letya'r wefan a chefnogaeth technegol am 12 mis o Chwefror 2022 ymlaen.

1032.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Derbyniwyd yr anfonebau canlynol yn ystod Rhagfyr 2021 ac Ionawr 2022 a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, cafwyd eu talu.

5711	Eglwys y Plwyf, Llandybïe	Gwasanaethu cloc eglwys y plwyf	£380.40
5712	EDF	Parc Capel Hendre – Tach 2021	£12.92
5713	EDF	Sied Fowlio Llandybïe -Tach 2021	£21.09

Cadeirydd

5714	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Tach 2021	£43.27
5715	Banc Bwyd Rhydaman	Grant	£1000.00
5716	EDF	MUGA Llandybïe – Tach 2021	£12.92
5717	EDF	Pafiliwn Saron – Tach 2021	34.32
5718	Hefin Jones	Gwasanaethau cyfieithu	£255.00
5719	Dŵr Cymru	Pafiwn Saron 36/5/21- 1/12/21	£188.77
5720	S Griffith	Cyflog Rhagfyr 2021, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£2298.23
5721	R Thomas	Cyflog Rhagfyr 2021, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£667.46
5722	Cyllid y Wlad	Rhagfyr 2021	£935.17
5723	Dŵr Cymru	Cyfleusterau Cyhoeddus Penygroes 11/6/21- 2/12/21	£128.60
5724	JEMS Environmental Ltd	Gwasanaethau hylendid dŵr – Tach 2021	£234.38
5725	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£134.70
5726	EDF	Parc Penygroes – Tach 2021	£13.36
5727	Morgan and Morgan	Outlook 365 – diwygio'r drwydded ebost	£96.00
5728	J T Services	Agor a chau'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn ystod Rhagfyr 2021	£930.00
5729	Dynevor Tree Services	Llwybr Troed 51/105 - cytundeb cynnal a chadw'r llwybrau troed a chlirio'r draeniau	£140.00
5730	MBP Fencing	Ffens newydd ym Mharc Saron	9708.00
5731	SSE Swalec	Cyfleusterau Cyhoeddus Penygroes 16/9/21 – 24/12/21	£38.90
5732	EDF	Parc Capel Hendre – Rhagfyr 2021	£13.36
5733	EDF	Sied Fowlio Llandybïe - Rhagfyr 2021	£21.64
5734	EDF	MUGA Llandybïe – Rhagfyr 2021	£13.36
5735	EDF	Pafiliwn Saron – Rhagfyr 2021	£24.92
5737	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Rhagfyr 2021	£33.81
5742	EDF	Parc Penygroes – Rhagfyr 2021	£13.80
5743	SSE Swalec	Cyfleusterau Cyhoeddus Llandybïe 15/10/21- 10/1/22	
5744	Dŵr Cymru	Pafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe – 3/10/21 – 7/1/22	£285.68
5746	Dŵr Cymru	Cyfleusterau Cyhoeddus Llandybïe 8/7/21- 13/1/22	£122.90
5750	BT	Bil ffôn y Clerc 15/1/22- 14/4/22	£171.32
5752	SSE Swalec	Trydan i'r Swyddfa a'r Siambr – 22/10/21 – 13/1/22	£45.02

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau canlynol:

5736	Vision ICT Ltd	Lletya'r wefan yn flynyddol a chefnogaeth hyd at Chwefror 2023	£300.00
------	----------------	--	---------

5738	JEMS Environmental Ltd	Gwasanaethau hylendid dŵr – Rhagfyr 2021	£281.26
5739	S Griffith	Cyflog Ionawr 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£2298.03
5740	R Thomas	Cyflog Ionawr 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£667.46
5741	Cyllid y Wlad	Ionawr 2022	£935.37
5747	J T Services	Agor a chau'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn ystod Ionawr 2022	£930.00
5749	Sunshine Playgrounds Ltd	Arolygu'r parciau Chwefror 2021-Ionawr 2022	£2808.00
5751	I L Merrills	Amnewid meinciau yn y parciau ym Mhenygroes a Derwydd	£1050.00

Penderfynodd yr Aelodau i gymeradwyo talu'r cyfrifon hyn, a chymeradwyo, yn ôl-weithredol, y taliadau a awdurdodwyd gan y Cadeirydd.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol – Ebrill 1/4/21 hyd at 31/12/21

Amcangyfrif 2020/21	Gwariant gwirioneddol hyd yn hyn	
£	£	
180,000	180,000	Praesept
150	14	Llog: Lloyds
400	0	Llog: cyfrifon cadw
3000	3,000	Hawliau Tramwy
	13,274	Adran 106
4700	2,350	Cytundebau llogi
	1,776	Ad-daliad ardrethi
188,250	200,414	
45,889	38,358	Staffio
17,650	8,735	Adeiladau
		Gwasanaethau
4,750	3,032	Swyddfa
3,100	270	Costau'r Aelodau
		Gwasanaethau a
10,000	3,581	Thanysgrifiadau
	7,080	Adran 137
		Taliadau yn unol â phwerau
18,000	0	eraill
		Mannau agored
	850	cyhoeddus

Ionawr 26^{ain}, 2022

	2,750	Neuaddau pentref
	3,200	Claddfeydd
}		Hawliau Tramwy – cynnal a chadw
10,000	6,230	
	0	Hawliau Tramwy - gwelliannau
		Torri'r glaswellt/ sbwriel/ cyfleusterau
28,000	630	
		Atgyweirio ac amnewid offer yn y parciau
50,000	32,298	
}	0	Goleuo cyhoeddus - ynni
		Goleuo cyhoeddus - gwelliannau
8,500	0	
28,000	5,059	Datblygu Cymunedol
		Cyfleusterau
13,000	8,245	Cyhoeddus
236,889	120,318	
	80,096	Balans am y flwyddyn (cyfnod
	311,004	d/y
0	391,100	c/y
	385,811	Arian parod a buddsoddiadau
	5,289	Dyledwyr
	0	Credydwyr
	391,100	

Hefyd dosbarthwyd i'r Cynghorwyr y gyllideb hyd at Dachwedd 30^{ain}, 2021.

Roedd y Cadeirydd wedi gwahodd cwestiynau neu sylwadau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cyfrifon fel uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

(iii) Cadarnhau'r praecept ar gyfer 2022/2023

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ysgrifennu at y Clerc i ofyn cadarnhad o'r praecept ar gyfer 2022/2023 ac hysbyswyd yr Aelodau taw £4461.56 yw'r sylfaen drethi ar gyfer 2022/23.

Penderfynwyd cadarnhau i'r Cyngor Sir taw £180.000 yw'r praecept ar gyfer 2022/2023.

Cadeirydd

(iv) Cysoniad arian parod

Cynhaliwyd cysoniad arian parod chwarterol hyd at Ragfyr 31^{ain}, 2021 gan y Cynghorydd Mrs K. D. L Davies ar Ionawr 13^{eg}, 2022.
Nid oedd unrhyw faterion i'w nodi.

1033.

Adroddiad ynghylch cyllid Adran 106

Hysbysodd y Cynghorydd Mrs K. D. L Davies yr Aelodau bod arian Adran 106 Ward Saron wedi'i ddyrannu i barc Nant y Ci.

Dywedodd y Cynghorydd Sir D. Thomas o Benygroes, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd, bod cais wedi'i wneud am £3000 arall i'w wario ar bafiliwn Clwb Rygbi Penygroes.

1034.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Dim i'w gofnodi.

1035.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Chwefror 23^{ain}, 2022, trwy gyfrwng Microsoft Teams.

1036.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.55 yh.